

PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Mehefin 2022

Rwy'n croesawu'r cyfle hwn i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i ddarpariaeth safleoedd ar gyfer personau sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Rwy'n mynd i'r afael â phob un o'r meysydd sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor isod ac edrychaf ymlaen at drafod ymhellach â'r Pwyllgor ddydd Mercher 22 Mehefin.

Gallai fod yn ddefnyddiol ar ddechrau'r papur tystiolaeth hwn i amlinellu'r gwaith diweddar ar y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sy'n cynnwys Nodau a Chamau Gweithredu sy'n ymwneud â phobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr.

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (Mehefin 2022)

- Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wneud Cymru yn genedl wrth-hiliol. Ar 7 Mehefin, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol' i fynd i'r afael â hiliaeth systemig a sefydliadol.
- Gan ddefnyddio profiadau cymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol o hiliaeth ac anghydraddoldeb hil, mae'r Cynllun yn nodi cyfres o gamau gweithredu ar draws y Llywodraeth i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Mae'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar y ddwy flynedd nesaf, ac yn seiliedig ar y weledigaeth o sicrhau Cymru wrth-hiliol erbyn 2030.
- Mae'r Cynllun yn mabwysiadu dull gweithredu gwrth-hiliol sy'n golygu ystyried y ffyrdd y mae hiliaeth yn rhan o'n polisïau, ein rheolau a'n rheoliadau ffurfiol ac anffurfiol, a'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn gweithio. Mae'n canolbwyntio ar y ffyrdd y mae hiliaeth yn effeithio ar fywydau pobl o leiafrifoedd ethnig, fel eu profiad o hiliaeth mewn bywyd bob dydd, mewn gwasanaethau a ddarperir ac fel rhan o'r gweithlu, gan ystyried hefyd y diffyg modelau rôl amlwg sydd mewn swyddi uchel eu proffil.
- Mae'r Nodau a'r Chamau Gweithredu yn y Cynllun yn ymdrin â meysydd polisi ar draws y llywodraeth, gan gynnwys iechyd, diwylliant, cartrefi a lleoedd, cyflogadwyedd a sgiliau, ac addysg. Maent hefyd yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth a chynrychiolaeth o fewn Llywodraeth Cymru ac ar draws gwasanaethau cyhoeddus.
- Yn y Cynllun mae Nodau a Chamau Gweithredu ar gyfer gwella bywydau pobl sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr ym meysydd polisi Addysg a'r Gymraeg, Iechyd, a Chartrefi a Lleoedd.
- Mae cartrefi diogel o bob math yn hanfodol i lesiant pobl ac i bob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys eu hiechyd a'u llesiant meddyliol a chorfforol, eu cyfleoedd a'u cyflawniad addysgol, eu canlyniadau o ran cyflogaeth a'u llesiant cymdeithasol a diwylliannol.

7. Ein nod cyffredinol yw bod pobl ethnig leiafrifol yn gallu byw mewn cartrefi gweddus, diogel a fforddiadwy sy'n diwallu natur amrywiol eu hanghenion. Mae COVID-19 wedi rhoi ffocws amlwg ar bwysigrwydd tai priodol a fforddiadwy i lesiant meddyliol a chorfforol pawb. Mae hefyd wedi tynnu sylw at yr anghydraddoldebau mawr sy'n bodoli i rai pobl o ran cael tai o'r fath.
8. Mae'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig ag adran *Cartrefi a Lleoedd* y Cynllun i'w gweld isod.

Cartrefi a Lleoedd | Safonau, darpariaethau a gwasanaethau

Nod

Sicrhau bod safonau, darpariaeth a gwasanaethau mewn perthynas â darparu cartrefi yn hyrwyddo cydraddoldeb hil, yn ymgorffori arferion gwrth-hiliaeth, cydraddoldeb a hawliau dynol, ac yn diwallu anghenion amrywiol pobl ethnig leiafrifol.

Cam gweithredu

- Gweithio gyda sefydliadau a arweinir gan bobl ethnig leiafrifol, awdurdodau lleol, Cymdeithasau Tai, Shelter Cymru a Cyngor ar Bopeth Cymru i ddangos bod anghenion gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth pobl ethnig leiafrifol yn cael eu diwallu mewn perthynas â'r gallu i gael cartrefi priodol, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr, menywod ethnig leiafrifol a cheiswyr lloches a ffoaduriaid.

Cartrefi a Lleoedd | Llety Sipsiwn a Theithwyr

Nod

Cydnabod bod angen llety diogel diwylliannol briodol er mwyn i unigolion ffynnu mewn rhannau eraill o'u bywydau ac er mwyn ymdrin â'r prinder safleoedd a'r llety o ansawdd gwael sydd ar gael i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.

Camau gweithredu

- Creu rhwydwaith cenedlaethol o ddarpariaeth dramwy er mwyn hwyluso bywydau teithwyr, gan ystyried manau aros dros dro wedi'u negodi, fel y bo'n briodol
- Treialu ffyrdd ychwanegol neu newydd o gyllido darpariaeth barhaol.
- Ystyried y potensial ar gyfer cynllun rhentu cartrefi symudol wedi'i weithredu drwy dai cymdeithasol er mwyn gwella ansawdd a chost y ddarpariaeth rhentu yng Nghymru
- Gofyniad cyfalaf ar gyfer cynllun peilot rhentu cartrefi symudol
- Rhoi cymorth dysgu a datblygu i Aelodau Etholedig Awdurdodau Lleol ar ddiwylliant, anghenion a chryfderau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Caiff y fanyleb ar gyfer y gwasanaeth ei llunio i sicrhau y bydd y cymorth yn mynd y tu hwnt i godi ymwybyddiaeth ac y bydd yn cynnwys gwrth-hiliaeth
- Comisiynu rhaglen beilot tair blynedd i ddarparu cyngor annibynnol dibynadwy i'r rhai sy'n awyddus i ddatblygu safleoedd preifat
- Adolygu'r polisi cyllido presennol ar gyfer safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr ac asesu ei effeithiolrwydd, gyda'r bwriad o dreialu dulliau ychwanegol neu newydd o gyllido safleoedd, gan gynnwys cymorth i safleoedd preifat

- Ailddrafftio'r Canllawiau Safleoedd er mwyn sicrhau y caiff anghenion cymunedau o ran dyluniad a lleoliad eu hadlewyrchu'n well yn y ddogfen hon
- Comisiynu cynllun hyfforddi cenedlaethol i dimau opsiynau tai awdurdodau lleol yng Nghymru, a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill, er mwyn gwella'r ffordd y gweithredir a'r cymorth a gynigir i aelodau'r gymuned sy'n gofyn am help mewn perthynas â digartrefedd a phroblemau llety, drwy greu "hyrwyddwyr" neu "arweinwyr" Sipsiwn a Theithwyr ym mhob awdurdod
- Sicrhau y caiff y mecanweithiau cyfreithiol sy'n bodoli eisoes eu defnyddio'n llawn i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth bresennol

A yw fframwaith presennol Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod digon o safleoedd preswyl a thramwy diwylliannol briodol i Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru?

9. Mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr ymhlith y grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf yn ein cymdeithas. Gwyddom fod y grwpiau hyn yn aml yn profi gwahaniaethu, anghydraddoldeb a diffyg cyfleoedd. Rydym am sicrhau y caiff aelodau'r cymunedau hyn gymorth i wireddu eu potensial a gwneud cyfraniad llawn at gymdeithas yng Nghymru.
10. Mae'r cynllun [Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr \(2018\)](#) yn amlinellu hyd a lled y gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cymunedau hyn yn wynebu llai o anghydraddoldebau, bod mwy o gyfleoedd ar gael iddynt, a bod y berthynas rhwng y cymunedau hyn a'r gymdeithas ehangach yn cael ei gwella.
11. Mae [Deddf Tai \(Cymru\) 2014](#) yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o safleoedd yn cael eu darparu. Mae hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal asesiadau rheolaidd (Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr) o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswyl (hy sy'n byw yno) neu'n ymgynnull (hy aros yn yr ardal o bryd i'w gilydd) yn ei ardal, ac i ddarparu safleoedd pan fo'r asesiadau'n nodi angen heb ei ddiwallu am leiniau cartrefi symudol. Rhaid cynnal asesiad ym mhob "cyfnod adolygu". Lluniwyd canllawiau statudol ([Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr – Canllawiau Llywodraeth Cymru \(2015\)](#)) i helpu Awdurdodau Lleol i arfer eu swyddogaethau o dan Ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.
12. Yn 2018 darparwyd [Cylchlythyr 005/2018 – Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn – Mehefin 2018](#) ar agweddau cynllunio y gwaith o nodi safleoedd cynaliadwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

I ba raddau y mae awdurdodau cynllunio lleol a Sipsiwn a Theithwyr yn llwyddo i gydweithio, fel yr argymhellwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o nodi safleoedd cynaliadwy ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr?

13. Mae ein canllawiau'n cydnabod ei bod yn hollbwysig ystyried dewisiadau aelodau o'r gymuned a bod yr Awdurdodau Lleol perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i benderfynu lle y bydd y galw am lety yn codi. Rydym yn annog

awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth, ac i sicrhau bod eu hasesiadau'n cael eu llywio gan waith Awdurdodau Lleol eraill.

I ba raddau y mae asesiadau awdurdodau lleol o Lety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu gweithredu, eu monitro a'u hadolygu i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion llety cymuned y teithwyr.

14. Mae adran 102 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno eu hadroddiadau asesu llety Sipsiwn a Theithwyr i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo. Bydd Gweinidogion Cymru yn asesu'r adroddiadau a gyflwynir i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r [canllawiau](#), yn ymgysylltu mewn modd safonol ag unigolion perthnasol ac yn amcangyfrif anghenion yn briodol.
15. Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r asesiad fel y'i cyflwynwyd, cymeradwyo'r asesiad gydag addasiadau, neu wrthod yr asesiad a'i gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad newydd. Os na chaiff adroddiadau eu cymeradwyo fel y'u cyflwynwyd, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â'r Awdurdod Lleol penodol mewn perthynas â'r newidiadau angenrheidiol.
16. O ganlyniad i'r pandemig, bu oedi o ran awdurdodau lleol yn cwblhau a chyflwyno Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2021/22. Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol bellach wedi cwblhau a chyflwyno Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr ac adroddiadau cysylltiedig. Y gofyniad oedd gwneud hynny erbyn 24 Chwefror 2022. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn asesu'r adroddiadau hyn.
17. Ar ôl i'r asesiad o lety Sipsiwn a Theithwyr gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, bydd dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i arfer eu swyddogaethau i ddarparu lleiniau cartrefi symudol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd. Mae adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn rhoi'r pŵer i Awdurdodau Lleol wneud hyn.

Archwilio'r heriau posibl i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru o ran darparu safleoedd llety addas a digonol ar gyfer cymunedau teithwyr.

18. Mae adran 102 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno eu hadroddiadau asesu llety Sipsiwn a Theithwyr i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo. Bydd Gweinidogion Cymru yn asesu'r adroddiad a gyflwynwyd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r [canllawiau](#), yn ymgysylltu mewn modd safonol ag unigolion perthnasol ac yn amcangyfrif anghenion yn briodol.
19. Caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo'r asesiad fel y'i cyflwynwyd, cymeradwyo'r asesiad gydag addasiadau, neu wrthod yr asesiad a'i gwneud yn ofynnol i gynnal asesiad newydd. Os na chaiff adroddiadau eu cymeradwyo fel y'u cyflwynwyd, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â'r Awdurdod Lleol penodol mewn perthynas â'r newidiadau angenrheidiol.
20. O ganlyniad i'r pandemig, bu oedi o ran awdurdodau lleol yn cwblhau a chyflwyno Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2021/22. Mae'r mwyafrif o

awdurdodau lleol bellach wedi cwblhau a chyflwyno eu hasesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr ac adroddiadau cysylltiedig. Y gofyniad oedd gwneud hynny erbyn 24 Chwefror 2022. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn asesu'r adroddiadau hyn.

21. Ar ôl i'r asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, bydd dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i arfer eu swyddogaethau i ddarparu lleiniau cartrefi symudol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd. Mae adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn rhoi'r pŵer i Awdurdodau Lleol wneud hyn.

Archwilio beth fydd goblygiadau'r darpariaethau ym Mil yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a'r Llysoedd Llywodraeth y DU

22. Mae Deddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a'r Llysoedd ("y Bil"/"y Ddeddf") yn ddeddfwriaeth gan Lywodraeth y DU ac mae'r un mor berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae darpariaethau penodol yn y Ddeddf yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig neu'n rhoi neu'n gosod swyddogaethau ar Awdurdodau Datganoledig Cymru. Mae'r rhain wedi'u rheoli gan ddefnyddio Memoranda a Chynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, fel yr amlinellir isod.
23. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaethau ar wersylloedd diawdurdod, a fydd yn effeithio ar gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae'r dystiolaeth hon yn nodi effaith y darpariaethau hyn, a'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd mewn ymateb. Mae hyn yn cynnwys gweithredu gyda phartneriaid yr heddlu yng Nghymru.

Effaith y darpariaethau ar wersylloedd diawdurdod yn y Ddeddf

24. Mae'r Ddeddf yn creu trosedd newydd i Gymru a Lloegr a phŵer cysylltiedig i'r heddlu gymryd meddiant o eiddo (gan gynnwys cerbydau) pan fo unigolion yn byw neu'n bwriadu byw ar dir gyda cherbyd. Nid yw'r drosedd newydd hon yn cyd-fynd â'n dull gweithredu fel llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau, buddsoddi ar gyfer darparu digon o safleoedd awdurdodedig a galluogi awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion llety (preswyl a thramwy) cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.
25. Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi codi pryderon dro ar ôl tro yn uniongyrchol i Lywodraeth y DU am y darpariaethau ar wersylloedd diawdurdod ac wedi gofyn iddi ailystyried y dull gweithredu gan y byddai'n effeithio'n anghymesur ar aelodau o'n cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Yn y trafodaethau hyn rydym wedi tynnu sylw at y ffaith bod Sipsiwn a Theithwyr yn lleiafrif ethnig sydd wedi bod yn rhan o fywyd a hanes Cymru ers cannoedd o flynyddoedd, ac wedi pwysleisio ein pryderon dwys am y bygythiad posibl i'w diwylliant a'u ffordd o fyw. Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'n sylfaenol troseddoli'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, sy'n mynd yn groes i bob agwedd ar ein strategaeth Teithio Ymlaen.

Memoranda a Chynigion Cydsyniad Deddfwriaethol

26. Ar draws y broses o ddatblygu a phasio'r Ddeddf, rydym wedi defnyddio Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a Chynigion Cydsyniad Deddfwriaethol i sicrhau bod llais y Senedd yn cael ei glywed ar faterion sy'n dod o fewn ei gymhwysedd. Gosodwyd [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#) gennym ar 28 Mai 2021, a oedd yn atgynhyrchu'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd cyn Etholiadau'r Senedd yn 2021 ar 22 Mawrth. Ailddatganwyd y safbwynt hwn mewn Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol pellach, gan gynnwys [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Rhif 3](#) a osodwyd ar 20 Rhagfyr 2021.
27. Bu'r Senedd yn dadlau ac yn pleidleisio ar y Bil ar ddau achlysur, gan bleidleisio ar bedwar Cynnig i gyd. Cynhaliwyd dadl gyntaf y Senedd ar y Bil ar 18 Ionawr a chynhaliwyd yr ail ddadl ar 1 Mawrth 2022. Yn ystod ail gyfnod ystyried cam gwelliannau terfynol y Bil ac oherwydd bod y Senedd eisoes wedi gwneud ei safbwynt yn glir drwy Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol [ddatganiad ysgrifenedig](#) ym mis Ebrill 2022. Roedd y datganiad hwn yn tynnu sylw unwaith eto at bleidleisiau'r Senedd ar y gwelliannau sy'n dod o fewn cymhwysedd.
28. Ysgrifennodd y Gweinidog Malthouse at Brif Gwnstabiliaid a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau Cymru a Lloegr ar 13 Mai i roi gwybod iddynt fod y Bil wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 28 Ebrill a'i fod bellach yn Ddeddf. Nododd hefyd y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi canllawiau statudol ar y mesurau Gwersylloedd Diawdurdod er nad oes amserlen wedi'i darparu ar gyfer hyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.
29. Ar 7 Mehefin, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Ddatganiad Ysgrifenedig pellach i grynhoi deilliannau cyffredinol y Ddeddf, ac i amlinellu'r dull y mae Llywodraeth Cymru wedi'i fabwysiadu i ddatblygu a phasio'r Ddeddf ac i'w gweithredu yn y dyfodol. Amlygodd hyn ymhellach ein gwrthwynebiad i'r darpariaethau ar Wersylloedd Diawdurdod.
- Dull Plismona yng Nghymru o ymdrin â'r darpariaethau*
30. Er nad yw Plismona wedi'i ddatganoli i Gymru, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r pedwar heddlu a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod plismona yng Nghymru yn digwydd mewn cyd-destun deddfwriaethol penodol, a bod plismona'n rhyngweithio'n rheolaidd â gwasanaethau datganoledig fel rhai ym meysydd tai, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.
31. Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cyfarfod yn fisol gyda phrif Gomisiynydd Heddlu a Throseddau Cymru, sef Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed Powys ar hyn o bryd. Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol hefyd yn cadeirio Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru bob chwarter, gyda'r Prif Weinidog yn cadeirio un cyfarfod y flwyddyn. Yn y cyfarfod diweddaraf ar 17 Mawrth 2022, trafodwyd Gwersylloedd Diawdurdod.
32. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddeall yn fanwl y gwahaniaeth y bydd y mesurau newydd yn ei wneud yng Nghymru, y diffygion presennol o ran y safleoedd

tramwy sydd ar gael i aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru a sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain, a datblygiadau plismona cenedlaethol mewn ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd.